# Increased growth rates are helping to maximise returns

## Gwion Owen
## Ruthin, Denbighshire



## Fact File

- 500 acre upland farm
- Beef and sheep enterprise
- 100 Stabiliser™ cattle

**Gwion joined the Welsh Beef Quality Improvement Project (WBQIP) in 2006 after reading an article about the scheme. The WBQIP funded 40% of the purchase price of a bull and his calves are already increasing the herd's productivity.**

As Gwion is in the process of grading up his Stabiliser™ herd he recognises the benefit of using performance recorded bulls. He said: "It is important for me to have a bull in the top 10% for calving ease and maternal traits to produce good breeding heifers for my herd. When the resulting high EBV heifers are put to another bull with good performance figures it should lead to rapid improvement of my herd. Growth rates and beef value are also important traits in a bull and calves with superior growth rates are quicker to finish, reducing my feed and labour costs."

Gwion bought a 15 month old Stabiliser™ bull in the top 10% of the breed, privately in July 2006 for £3000. It is the first bull he has bought on performance figures and now that his first crop of calves are on the ground, Gwion can see that they are already showing superior growth compared to the calves from his un-recorded bull. The calves have shown excellent 100 day weights with steer calves gaining 1.2kg-1.4kg a head a day. The increased growth rate in his heifer calves is also important to help them reach the required 400kg at 14 months for them to be bulled.

Gwion is so impressed with the result from the bull, he will definately buy a bull based on figures in the future: "Buying a bull with figures takes the guess work out of the purchase. Combining performance recorded figures along with appearance and breeding gives you the best guarantee you can get." he added.

**Preliminary data from the progeny of bulls bought through the scheme to date has shown that participating breeders are already seeing improved returns.**

| | In scheme | Not in scheme |
|---|---|---|
| Number in sample | 39 | 1,563 |
| Average liveweight gain for all animals (kg/day) | 1.04 kg | 0.89 kg |

# Gwell cyfraddau twf yn helpu i gael yr enillion gorau posibl

## Gwion Owen
## Rhuthun, Sir Ddinbych

HYBU CIG CYMRU
MEAT PROMOTION WALES



## Ffeil Ffeithiau

- Fferm tir uchel 500 erw
- Menter eidion a defaid
- 100 o wartheg Stabiliser™

**Ymunodd Gwion â Phrosiect Gwella Ansawdd Cig Eidion Cymru (WBQIP) yn 2006 ar ôl darllen erthygl am y cynllun. Talodd WBQIP 40% o'r pris a dalwyd am darw, ac mae ei loi eisoes yn gwella cynhyrchedd y fuches.**

Am fod Gwion wrthi'n uwchraddio'r fuches Stabiliser™, mae'n sylweddoli gwerth defnyddio teirw â chofnodion perfformiad. Meddai: "Mae'n bwysig i mi gael tarw yn y 10% uchaf am rwyddineb lloia a nodweddion mamol i gynhyrchu heffrod magu da ar gyfer fy muches. Pan fo'r heffrod ag EBVau uchel sy'n deillio o hyn yn cael tarw arall â ffigurau perfformiad da, dylai arwain at welliant cyflym yn fy muches. Mae cyfraddau twf a gwerth cig eidion hefyd yn nodweddion pwysig mewn tarw, ac mae lloi â chyfraddau twf uwchraddol yn pesgi'n gyflymach, ac mae hynny'n golygu fod y gwaith a'r porthiant yn costio llai."

Prynodd Gwion darw Stabiliser™ yn 10% uchaf y brid, yn breifat ym mis Gorffennaf 2006 am £3000. Hwn yw'r tarw cyntaf a brynwyd ganddo ar sail ffigurau perfformiad. Erbyn hyn mae lloi cyntaf y tarw'n tyfu, a gall Gwion weld eu bod eisoes yn tyfu'n well mewn cymhariaeth â'r lloi o'r tarw heb gofnodion. Roedd gan y lloi bwysau 100-niwrnod rhagorol, gyda'r lloi bustach yn ennill 1.2kg-1.4kg yr un bob dydd. Mae'r well gyfradd twf yn ei loi benyw hefyd yn bwysig i'w helpu i gyrraedd y 400kg sydd ei angen pan fyddant yn 14 mis oed er mwyn cael tarw.

Mae Gwion mor bles â'r canlyniadau felly bydd yn bendant yn prynnu tarw â chofnodion perfformiad yn y dyfodol: "Mae prynu tarw â ffigurau'n golygu bod modd prynu heb ddyfalu. Mae cyfuno ffigurau cofnodion perfformiad ynghyd â golwg a magwraeth y tarw yn rhoi'r warant orau y gallwch ei chael," ychwanegodd.

**Mae'r data rhagarweiniol ynglŷn ag epil y teirw a brynwyd drwy'n cynllun hyd yma wedi dangos fod y bridwyr sy'n cymryd rhan yn cael gwell enillion eisoes.**

| | Yn y cynllun | Ddim yn y cynllun |
|---|---|---|
| Nifer yn y sampl | 39 | 1,563 |
| Y cynnydd pwysau byw cyfartalog ar gyfer yr holl anifeiliaid (kg/y dydd) | 1.04 kg | 0.89 kg |

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government